# Strategaeth Gyfranogi

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## 2022-2027

# Cynnwys

Beth mae Cyfranogiad yn ei olygu a pham ydym eisiau ei wneud yn dda? . . . . . . . . . . 3

Cyd-gynhyrchu yw ... . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

Ymgysylltu yw ... . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 4

Ymgynghori yw ... . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

Y gyfraith a beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 5

## Beth mae Cyfranogiad yn ei olygu a pham ydym eisiau ei wneud yn dda?


Mae Cyngor Wrecsam wedi ymrwymo i wrando ar bobl Wrecsam. Mae Cyfranogiad da yn golygu fod pawb yn y gymuned yn gwybod y gallant ymuno â'r drafodaeth am y gwasanaethau a ddyluniwn a'u darparu; ac yn gallu helpu i siapio dyfodol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gobeithiwn trwy wneud hyn bydd dyfodol gwasanaethau yn Wrecsam yn canolbwyntio mwy ar beth sydd bwysicaf i bobl Wrecsam ac, y bydd pobl yn gwybod y gallant ddweud eu dweud a gweithio gyda ni i wneud i bethau ddigwydd.

### Ein Gweledigaeth... ar gyfer gwell cyfranogiad

Rydym eisiau Wrecsam ble mae pawb yn gwybod y gallant fod yn rhan o ddylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Yr ymgysylltir ac ymgynghorir â phobl ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a ble bo'n bosib ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau; a gwneud i bethau ddigwydd, gyda'n gilydd.

### Sut fyddwn yn annog cyfranogiad gan bawb?

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynnwys pobl gan ddefnyddio amrywiaethau o dri dull, fel y bo'n briodol; y rhain yw cyd-gynhyrchu, ymgysylltu ac ymgynghori.



## Cyd-gynhyrchu yw ...

Gweithio gyda phobl a chymunedau mewn partneriaeth gyfartal i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n bwysig gyda'n gilydd.

### Ein nod yw ...

1. Sicrhau ein bod yn gweithio i safonau uchel yn gyson ar draws y sefydliad, wrth gyd-gynhyrchu gwasanaethau.

2. Datblygu partneriaethau gydag unigolion, grwpiau a chymunedau perthnasol, i rannu eu gwybodaeth a'u profiad.

3. Gwreiddio diwylliant o gyd-gynhyrchu ar draws y sefydliad, a defnyddio'r dull hwn ble bynnag y bo'n briodol.

## Ymgysylltu yw ...

Sgwrs fywiog, barhaus sy'n defnyddio dulliau gwahanol i wrando ar syniadau i ddylanwadu a siapio polisi a gwasanaethau.

### Ein nod yw ...

1. Sicrhau bod ffyrdd priodol a hygyrch i bobl ymgysylltu â ni ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

2. Dadansoddi a deall safbwyntiau pobl, o amrywiaeth o ffynonellau, a defnyddio'r wybodaeth hon (ynghyd â gwybodaeth a data arall) i gefnogi ein penderfyniadau.

3. Datblygu cysylltiadau a pherthnasau effeithiol gyda phobl a chymunedau gwahanol ar draws y fwrdeistref sirol.

4. Adnabod a chydnabod y gwerth mae ymgysylltu wedi ei ychwanegu i'n gwaith.

## Ymgynghori yw ...

Proses ffurfiol i gasglu barn grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb ar gynigion penodol i helpu i wneud penderfyniad.

### Ein nod yw ...

1. Sicrhau ein bod yn ymgynghori ar y pethau cywir, yn y ffyrdd cywir, ar yr amser cywir, gyda'r bobl gywir.

2. Sicrhau bod ymgynghoriadau ar draws y sefydliad yn cael eu cynnal i safon uchel yn gyson.

3. Sicrhau bod canfyddiadau ymgynghoriadau yn cael eu hystyried, a'u defnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ar bob lefel.

4. Sicrhau ein bod yn cyfathrebu yn onest gyda phobl ynglŷn â chanlyniad eu cyfranogiad.

## Y gyfraith a beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni

Mae'r gyfraith hefyd yn nodi bod yn rhaid i ni wneud hyn; ac yn rhoi'r hawl i chi ddisgwyl i ni ystyried sut rydym yn cael pobl i gyfranogi a chydweithio.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sy'n nodi bod cynnwys pobl yn allweddol i egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**- sy'n nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol roi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio a chynnal gwasanaethau.

- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** - yn gosod dyletswydd ar gynghorau i hyrwyddo ac annog cyfranogiad ym mhenderfyniadau'r cyngor. Gwneir hyn drwy ofyn i'r holl brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad cyhoeddus. Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd. Fel rhan o hyn rydym eisiau eich barn ar ba mor dda yw ein perfformiad, er mwyn cefnogi hunanasesiad blynyddol y Cyngor.

- **Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol 2021** - (o dan ran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Golyga hyn bod rhaid i'n penderfyniadau ni ddarparu gwell canlyniadau i bobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. Mae angen i ni ddod i ddeall barn a gofynion yr unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau, yn enwedig yr unigolion sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

- **Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam** – sy'n nodi bod angen i gymunedau a sefydliadau'r sector cyhoeddus siarad a gwrando ar ei gilydd er mwyn gwella lles yn Wrecsam.

- **Ein Cynllun y Cyngor** - rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl leol yn sut rydym yn cynllunio, blaenoriaethu a darparu gwasanaethau.

- **Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus** - Mae'r strategaeth yn nodi sut bydd y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) er mwyn hyrwyddo ac annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau yn y Cyngor.

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW** - Mae'r cynllun yn nodi ymrwymiad i wella cydraddoldeb mewn cynrychiolaeth ac amrywiaeth llais, rydym eisiau i fwy o bobl gyfranogi sydd efallai heb wneud yn y gorffennol.

- **Strategaeth Gyfranogi Plant a Phobl Ifanc** - yn gosod sut mae'r Cyngor yn mewnosod ei ymrwymiad hirdymor i gyfranogiad gyda phlant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniad sefydliadau Statudol a Thrydydd Sector drwy ymgynghoriad, ymgysylltiad ac arsylwi proffesiynol.

*Mae'n bwysig nodi y defnyddir termau eraill mewn rhai meysydd, yn enwedig ym myd plant a phobl ifanc, lle mae'r term 'cyfranogiad' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin. Byddwn yn ystyried bod y termau 'cyfranogiad' a 'chynnwys' yn golygu'r un peth at ddibenion y strategaeth hon.*

Yn ogystal â'r cynlluniau a nodwyd uchod, rydym yn cynllunio bob gwasanaeth ac yn annog pobl i gyfranogi ar draws bob adran yn y Cyngor.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch gyfranogi ac ymuno â'r sgyrsiau ynglŷn â helpu i siapio gwasanaethau'r Cyngo. Ewch i'n gwefan, e-bostiwch ni neu ffoniwch i wybod mwy. Mae gennym hefyd gynlluniau lleol sydd wedi ymrwymo i gael mwy o bobl i gyfranogi; amlygwyd mewn nifer o leoedd gan gynnwys:

https://www.wrecsam.gov.uk

https://www.yourvoicewrexham.com

telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk